

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed Hydref 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Marion Bettenev, Karen Pugh, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Gareth Parry, Janet Charlton, Gwawr Jones, Terry Bullock, Elisabeth Roberts.
Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fedi 2014.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y clercc, bydd y rhingyll Simon Evans yn mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

[1.1] Arwyddion/Poster

Nodwyd nad oedd APCE yn medru ymgymryd â'r arolwg o'r arwyddion/posteri yn y pentref ar hyn o bryd. Penderfynwyd gofyn i'r Cyng. Elisabeth Roberts ddilyn y mater ymlaen

[1.2] Toiledau Ffordd yr Orsaf

Deallwyd y byddai Mr Steven Teale [Adran Amgylchedd Cyngor B S Conwy] yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

[1.3] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed

Penderfynwyd ymgymryd â gwaith cynnal a chadw sydd angen sylw ar frys. Cytunodd y Cyng. Marion Bettenev a Jim Boughton baratoi rhestr o'r gwaith.

[1.4] Llinellau Melyn gyferbyn a Gwestai'r Glan Aber ar Gwydr

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.5] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol

Esboniodd y clercc fod y symbol wedi ei gynnwys yn yr arwydd a'i fod yn trefnu i gwrdd gyda Mr Glenn Evans i drafod y lleoliad.

[1.6] Goleuadau 25-29 Bro Gethin/ Lampau heb Olau

Nodwyd bod y goleuadau wedi eu trwsio.

[1.7] Materion Ffyrdd

Cyfeiriodd y clercc at y sylwadau canlynol gan y Cyngor Sir:

[a] Bod perchennog "Hafan" wedi cytuno i atgyweirio'r wal

[b] Wal gyferbyn a gwersyllt fferm yr Hendre ar briffordd yr A5. Nodwyd bod yr Asiantaeth Priffyrdd yn trefnu i archwilio'r wal.

[1.8] Llyn Elsi

Deallwyd bod y dŵr sydd yn cael ei dynnu o'r llyn ar hyn o bryd at ddibenion profi yn unig ar gyfer yr Orsaf Hydro ym Mhentre' Du yn unig.

[1.9] Gwasanaeth Coffa Rhyfel Byd Cyntaf

Cytunodd y Cyng Jim Boughton i wneud ymholiadau ynglŷn â chynnal y gwasanaeth yn y Neuadd Goffa.

Y Brif Agenda

[2] Materion Cynllunio

[a] Gosod sustem panel haul ffotofoltaidd ar ochr deheuol y garej. Willow Cottage, Pentre Du

[b] Adeiladu uned manwerthu unllawr. tir ger Isfryn, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed.

Cyfeiriodd y clerch at gyfarfod gyda Mr Richard Thomas APCE a chadarnhaodd fel a ganlyn:

[1] Bod y llawr cyntaf ar gyfer storfa yn unig. Ystyrier felly bod yr adeilad yn unllawr.

[2] Bod y cynllun ar gyfer yr adeilad eisoes wedi ei gymeradwyo, gan nodi gostyngiad mewn uchder.

[3] Gall y Cyngor Cymuned wneud sylwadau ynglyn a bwriad y busnes.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[2.1] Materion Ariannol

[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod Medi 2014.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Medi 2014.

[2.2] Gofalwr y Neuadd Goffa

Cyfeiriodd y clerch at ymddiswyddiad Mr Raymond Hughes a bod hysbysiad eisioes wedi ei arddangos yn gwahodd ceisiadau am y swydd.

Y Cadeirydd/Is Gadeirydd a'r clerch i ymweld â'r bwthyn trwy drefniant gyda Mr Hughes i benderfynu ynglyn a gwaith atgyweirio, hefyd i gynnal cyfweiliad gyda darpar ymgeiswyr ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

[2.3] Cyfraniad /Noson Tan Gwylt

Penderfynwyd cyfrannu £75.00 i Llais Llugwy tuag at noswaith tan gwylt.

[2.4] Materion Priffyrdd

Rhoddwyd sylw i lythyr gan Aled Roberts AC yn ceisio sylwadau ynglŷn â chyflymder ar briffordd yr A5 yn y gymuned. Penderfynwyd ymateb fel a ganlyn:

[a] Dylai 40 m.y.a. presennol ym Mhentre' Du gael ei ostwng i 30mya a hefyd ei ymestyn i gyfeiriad y Rhaeadr Ewynnol

[b] Dylid hefyd ystyried cyflwyno 40mya ar yr A470 o Rhyd y Craeau i Bont Waterloo.

[2.5] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Grŵp Ffocws Gwasanaethau Cynllunio APCE 4/11/14

[b] Grŵp Ffocws Cynghorau Cymuned, Argymell cyfraniad gan Gynghorau Tref/Cymuned tuag at CCTV.

[c] Gwobr Chwaraeon Cyngor BS Conwy.

[d] Ymgynghoriad Cyhoeddus APCE, Canllaw Cynllunio Atodol Drafft.

[e] Cartrefi Conwy, Menter Gwariant Arweiniol gan y Gymuned.

[f] Unllais Cymru, Pwyllgor Ardal 22/1014.

Cadeirydd_____